

# Llais y Llan Ebrill 2017

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 20 Mai 2017  
Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol  
[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk)

## Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643  
Noson Cinio Rhost y Rheilffordd pob Nos Iau 01267253643  
Noson 'Fitness Fun' Nos Fawrth 6.30 Neuadd Goffa £4  
Cadw'n Heini 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd  
Ebrill 4 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa  
Ebrill 9 10.30 Tacluso Rhandiroedd  
Ebrill 12 Dydd Mercher Orsaf Heddlu Symudol yn y pentref.  
Ebrill 12 Dydd Mercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643  
Ebrill 18 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd  
April 19 Dydd Mercher 2.00 Clwb 60+ Taith 'Royal Mint'  
Ebrill 19 Dydd Mercher 11.00 – 4.00 Clinig Traed Neuadd Goffa  
Ebrill 23 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd  
Ebrill 24 Dydd Llun 2.00 Clwb 60+ Neuadd Bronwydd  
Ebrill 26 Nos Fercher 8.00 CCB Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint Neuadd Goffa  
Ebrill 28 7.30 Cór Llanpumsaint a'r Cylch Eglwys y Plwyf, Llandysul  
Ebrill 30 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook  
Mai 4 Dydd Iau Etholiadau  
Mai 5 Dydd Gwener Diwrnod Ddewinio Rhyngwladol  
Mai 6 Dydd Sadwrn 1.30 Diwrnod Hwyl  
Mai 6 Dydd Sadwrn 2.00 Cerdded Cwmttydu  
Mai 6 Dydd Sadwrn 7.00 Cerebra Cerdded Cysgu Pen y fan  
Mai 10 Dydd Mercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643  
Mai 16 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa  
Mai 17 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd  
Mai 18 Dydd Gwener Clwb 60+ Taith – Ironbridge  
Mai 21 Dydd Sul Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd  
Mai 22 Dydd Mercher 2.00 Clwb 60+ Neuadd Bronwydd  
Mai 28 Dydd Sul Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook  
Mai 29 Dydd Llun Skanda Vale Cerdded  
Mai 31 Dydd Mercher 11.00 – 4.00 Clinig Traed Neuadd Goffa  
Mehefin 3 Dydd Sadwrn 10.00 Tacluso Cae Chwarae  
Mehefin 3 Dydd Sadwrn 2.00 Cerdded Cwm Creigiau Fach  
Mehefin 6 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Mehefin 11 Dydd Sadwrn 11.00 Dyddiad i'ch Dyddiadur Esgair

Mehefin 14 Dydd Mercher Orsaf Heddlu Symudol yn y pentref.

Mehefin 14 Dydd Mercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Mehefin 20 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Mehefin 25 Dydd Sul Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Mehefin 25 Dydd Sul Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Gorffennaf 12 Dydd Mercher 11.00 – 4.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Hydref 13 Nos Wener Noson Rasys Neuadd Bronwydd

### **Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri**

I logi'r Neuadd Goffa, ffoniwch Derick Lock 01267253524

### **Heddlu**

Fe'm hysbyswyd yn ddiweddar gan Gyngor y Gymuned am achos bach o graffiti yn y parc ac yn y safle bws. Marciau wedi'i chwistrellu yn unig oedd peth o hwn, ond mewn un safle roedd iaith atgas a sarhaus. Gan nad oeddem yn gwybod am union amser y digwyddiad hwn, roedd yn anodd parhau gyda'r ymchwiliad. Ar ôl cynnal patrolau lleol a hel gwybodaeth gallwn adnabod y sawl a oedd yn gyfrifol. Ers hynny, rydym wedi siarad â'r bobl ifanc hyn a'u teuluoedd. Ar ôl trafod gyda Chyngor y Gymuned, cytunwyd y byddai'r unigolion hyn yn glanhau'r graffiti ar eu cost eu hunain, treulio amser yn codi sbwriel yn y pentref ac ysgrifennu llythyron i ymddiheuro am yr hyn a wnaethon. Cwblhawyd hyn Ddydd Sadwrn 11eg Mawrth. SACH Dickenson a oedd yn goruchwyllo.

Glanhawyd y safle bws a chasglwyd 10 bag o sbwriel o fewn 2 awr, ac anfonwyd y llythyron at bob parti. Dyma ganlyniad boddhaol i fater lleol sydd, gobeithio, wedi dysgu gwers i'r sawl a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad.

Bydd yr Orsaf Heddlu Symudol yn ôl yn y pentref Ddydd Mercher 12fed Ebrill a Dydd Mercher 14eg Mehefin ym maes parcio Neuadd y Pentref. Dewch draw am sgwrs.

Martin Dickenson 8046, Swyddog Cymorth Cymunedol, Heddlu Dyfed Powys, Gorsaf Yr Heddlu Carmarthen Police Station 101 Ex 25344 / 25343 [martin.dickenson@dyfed-powys.pnn.police.uk](mailto:martin.dickenson@dyfed-powys.pnn.police.uk)

### **Dyddiad i'ch Dyddiadur**

Ar ddydd Sul Mehefin 11 2017 ymwelwch a chymeryd rhan mewn Dydd Agored y Diwydiant Ffermio lle gwelir ffermydd yn agor eu drysau a chroesawu ymwelwyr. Am 11.00 y bore ar y dyddiad uchod bydd Martin, Nicky, Carwyn a Ceri yn croesawu pawb i'r Esgair yn Llanpumsaint i ymweld a'r fferm, gweld sut y maent yn cadw'r anifeiliad, beth sydd yn cael ei gynhyrchu a hefyd sut mae gwyddoniaeth yn effeithio ar amaethyddiaeth. Cewch hefyd baned a chacen.

Mae mynediad am ddim ond os hoffai unrhyw un roi cyfraniad tuag "Parkinson, UK" fe'i derbynnir gyda diolch. Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a [www.farmsunday.org](http://www.farmsunday.org)

### **Bandllydan Cyflym Iawn neu Fand Malwaden**

Addawodd B.T i mi ym mis Chwefror y byddai'r Bandllydan Cyflym Iawn wedi cyrraedd erbyn diwedd y mis, ond nawr maent yn siarad am 4 mis.

Bues yn trafod gydag Uchel Swyddogion B.T sy'n dweud eu bod yn methu cael synnwyr oddi wrth Openreach ynghlyn ag amseriad gosod y fibr. Efallai y cewch chi well lwc o drafod gyda Noel Fitzpatrick 0131448 4880. Addawodd ddod 'nol ataf cyn diwedd Mawrth. Carolyn Smethurst

## **Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru - Prentisiaeth yng Ngarddwriaeth Fotanegol**

Mae prentisiaethau yn ffordd arbennig o ddechrau gyrfa yng ngarddwriaeth. Enillwch arian wrth i chi ddysgu a chyfunwch astudiaeth academaidd gyda hyfforddiant a phrofiad gwaith. Dyma gyfle dwy flynedd o hyd wedi'i seilio yn y gweithle gyda diwrnod o astudiaeth academaidd.

Mae'r brentisiaeth yn dechrau ym mis Medi gyda'r nod o gyflwyno'r safon uchaf o sgiliau garddwriaeth broffesiynol. Mae'r brentisiaeth yn cynnig hyfforddiant ymarferol yng ngarddwriaeth fotanegol. Byddwch yn gweithio'n ochr ag ochr a garddwyr yr Ardd, a byddwch hefyd yn ennill gwybodaeth sylfaenol o astudiaeth coleg. Bydd prentisiai'r Ardd yn ein helpu i gyflawni'r safonau uchaf gan hefyd datblygu gyrfa eu hun.

Mae'r brentisiaeth ar lefel mynediad ac wedi'i ddylunio am unigolyn brwdfrydig ac ymroddedig sy'n dymuno dechrau gyrfa yng ngarddwriaeth. Mae prentisiaid yn cael eu cyflogi ar gyflog a delir yn unol â'r cyfraddau isafswm cyflog cenedlaethol. Caiff costau coleg a lleoliadau cael eu talu gan yr Ardd a'i phartneriaid.

Bydd y prentis yn ennill profiad gwaith ym mhob ardal o arddwriaeth yr Ardd gan gynnwys: garddwriaeth fotanegol, cynhaliaeth yr ardd, gweithio yn y tai gwydr, tai gwydr meithrin a garddwriaeth ar ddangos. Anogir datblygiad personol gyda chyfleoedd i ennill cymwysterau addas o'r Cyngor Profion Hyfedredd Cenedlaethol a'r dewis i gymryd rhan o weithio yng ngerddi eraill. Croesawir ymholiadau anffurfiol a dylai'r rhain cael eu hanelu at Sheryl Richardson, Hyfforddwr ac Aseswr Garddwriaeth ar [sheryl.richardson@gardenofwales.org.uk](mailto:sheryl.richardson@gardenofwales.org.uk) neu 01558 667105.

<https://botanicgarden.wales/learning/prentisiaeth-yng-ngarddwriaeth-fotanegol-yr-ardd-fotaneg-genedlaethol-cymru/>

## **Clwb Cerdded Llanpumsaint**

Ar Sadwrn 6ed o Fai byddwn yn cerdded Coed y Foel ger Llandysul, coedwig gyntefig Dan Y Coed Cadw. Dylai fod yn frith o glychau'r gog yr adeg yma. Mae 'na ychydig o le parcio ger y fynedfa, a'r cyfeiriad yw Coed y Foel, Pren-gwyn sa444ls - Cyfeiriad Grid SN428425. Byddwn yn cychwyn am ddau o'r gloch a gellir cael gwybodaeth bellach oddi wrth Ann Petitt 10559 389044.

Taith leol fydd hi wedyn ar ddydd Sadwrn 3dd o Fehefin, yn dilyn trywydd Y Ditchhikers lan y dyffryn cudd hardd i Gwmcreigiau Fach a draw am Skanda Vale, cyn dychwelid i'r pentref. Cwrdd ger y Neuadd Goffa am ddau o'r gloch.

Hefyd, ar y diwrnod hiraf, 21ain, yn Mehefin byddwn, gyda chyniatad, yn cerdded lan drwy'r afon Cerwyn i byllau'r Saint. Cyfarfod am chwech yr hwyr ger y Neuadd eto. Bydd angen wellingtons ac mi ffeindiwch fod pastwn o gymorth, oherwydd bod cerrig yr afon yn slip a bydd rhaid dringo dros ambell gangen coeden. Ond bydd cyrraedd y rheadr yn werth yr ymdrech! Gwybodaeth bellach ar y wefan [www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) <http://www.llanpumsaint.org.uk>

## **Pa ddefnydd fyddde chi'n neud tybed, pe bai rhywun yn cynnig Blwch Halen I chi?**

Mae'n amlwg fod y blwch melyn siriol wedi ei ddyfeisio I ddal graean a halen, ac fe'u gosodir mewn manau priodol ar hyd a lled lonydd cul cefn gwlad fel bod trigolion lleol yn gallu cadw'r rhiwiau a throeon cās yn fwy diogel ar gyfer trafniadaeth. Gofynnodd Cyngor Cymuned Llanpumsaint I Adran Briffyrdd y Sir I osod Blwch ar y tro gyferbyn a Phantydrw, oherwydd pan fyddai dŵr yn suddo I'r heol o'r clawdd ac wedyn yn rhewi, fyddde'r tro yn llithrig a pheryglus ben bore oherwydd iddo fod yng nghysgod yr haul ac ddim yn dadleth tan ganol bore, oriau ar ôl I fws y plant gropian lawr y rhiw. Hydref diwethaf, gwrandawyd ar ein cri a gosodwyd bin llawn halen mewn man call ar y tro mewn da o bryd ar gyfer gaeaf called. Ond, wnaeth y blwch ddim a goroesu yn hir, tua mis yn ôl, ac yn hollol disymwyth, diflannodd; dim ond pentwr o raeon a dystia fod yna flwch wedi bod yno! Tybed, I ble aeth y blwch; fyddde'r Cyngorwyr yn hoffi gwybod....

Yn ôl Tony Williams o'r Adran Briffyrdd, eithriad prin yw colli bin, y graean yw'r aur arferol, ond, temtiwyd rhywun gan sirioldeb y blwch ond hiraetha'r gymuned amdano. Os gwyr rhywun pa gonsyrwr wnaeth achosi'r blwch ddiflannu, efallai allant ofyn iddo orffen ei dric a gwneud I'r blwch ymddangos. Ystyrir diflaniad y blwch fel trosedd, felly gwyr Heddlu Dyfed Powys am y lladrad, ond, os wneiff y dewin orffen ei dric, fydd dim mwy o son amdano...

## **B.T. Call Protect**

Mae'r gwasanaeth newydd gan B.T yn eich helpi i waredi alwadau diangen - chi'n gallu dewis pa alwadau i'w derbyn gan anfon y gweddill i'r **Blwch Sothach**. Mae tair ffordd o wneud hyn ;--  
1 Rhestr Ddu B.T Maent wedi canfod nifer o alwadau diangen a'u danfon i'r Blwch Sothach. - gwneir hyn pan ymaelodwch i'r gwasanaeth.

2 Rhestr Ddu bersonol -- Gellir ychwanegu'r alwad ddiwethaf gawsoch os dymunwch i'r Blwch Sothach.

3 Gellir ychwanegu galwadau grŵp fel "Rhyngwladol" neu "Wedi eu hatal" os dymunwch.

Byddwch yn rheoli hyn oll o'r ffon gartre drwy alw 1572 am ddim.

Ers ymaelodi rhyw fis yn ôl sylwais leihad sylweddol yn y galwadau diangen. Felly rhowch dro arni!  
Carolyn Smethurst

## **Derbyn Papurau Dyddiol**

Wedi i Siop Penbontbren gau bu raid i nifer deithio milltiroedd naill a'i Gwalia neu Danerdy er mwyn casglu papur. Mae yna bosibilrwydd bellach y gellir trefnu cael eich papur wrth ddrws y tŷ o'r Llundun i'r Gwener. Os oes gennych ddiddordeb yna cysylltwch â Kelly 01267 253187.

Noson Rasys Ceffylau yn Neuadd Bronwydd - 13eg Hydref

7.00yh - Ras Gyntaf am 7.30. Croeso i bawb dros oed 16. Mwy o wybodaeth nes ymlaen.

## **CYLCH MEITHRIN BRONWYDD**

Os hoffech fwy o wybodaeth am y Cylch Meithrin, cysylltwch a ni ar 07929 431652 (Verona).

Cylch Meithrin (Bore Mawrth, Mercher, Iau a Gwener 9.15 yb – 12.00 h.d.)

Cylch Ti a Fi – Dydd Gwener 10.00yb – 12.00 hd

## Capel Nebo

Ebrill/April 16eg Mr Wyn Maskell 2 o'r gloch  
23ain Mr Lyndon Lloyd 2 o'r gloch  
Mai/May 7fed Parchedig Geraint Jenkins 2 o'r gloch  
21ain Parchedig Goronwy Evans 10:30 y.b  
28ain Mr Lyndon Lloyd 10:30 y.b  
Mehefin /June 4ydd Mr Peter Harries 10:30  
11eg Mr Wyn Maskell 10:30

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

## Caersalem, Llanpumsaint

Ac ni a wyddom fod pob peth yn cyd-weithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw. Rhuf 8:28  
Gwasanaeth Cymraeg pob prynhawn Sul am 2pm neu 2.30pm ar wahan i Sul ola'r mis pan mae'r  
oedfa yn Saesneg  
Cwrdd gweddi bob prynhawn dydd Iau ac Ysgol Sul i oedolion ar fore Sul  
Croeso i bawb  
Am fwy o fanylion ffoniwch Eleri Morris ar 01267 253895

## Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion am y gwasanaethau am fisoedd Ebrill, Mai a Mehefin 2017

Ebrill 16 Cymundeb Undebol Sul Y Pasg yng Nghlawddoch am 10.30 y.b. Parch Gareth  
Morris  
Ebrill 29 Cymundeb am 2.00 y.p. Parch Huw George  
Mai 7 Cymundeb am 3.00 y.p. Parch Desmond Davies  
Mai 21 Gwasanaeth am 2.00 y.p.  
Mehefin 11 Gwasanaeth am 2.00 y.p.  
Mehefin 25 Gwasanaeth Undebol yn Ffynnonhenri am 2.00 y.p. Parch Gareth Morris  
Os am ragor o fanylion cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn  
Nicholas Ysgrifennyddar 01267 253686

## Noswyl Cerebra i Benyfan

### Dydd Sadwrn 6ed o Fai 2017 - Cwrdd am 6.00yh i gychwyn am saith

Ymunwch a ni ar ein hail Daith Noswyl o gopa Penyfan, er mwyn cefnogi teuluoedd i dderbyn  
noson dda o gwsg. Gall byw heb gysgu'n iawn wneud mynydd o fywyd, a'r teimlad nad oes modd  
cyrraedd y brig. Rydym yn deall hynny yn Cerebra ac yn gwerthfawrogi problemau teuluoedd sydd  
â phlant yn diodde' nam ar yr adenydd.

Gallwch ddod a'ch teuluoedd a ffrindiau i daith fydd yn fodd clymu pobl at eu gilydd yng ngolau'r  
sêr dan yr awyr iach y nos. Nid oes angen rhyw ymarfer mawr arnoch, ond eich bod yn weddol  
heini mewn par o esgidiau cadarn. Dewch a thorch gyda'ch a chydiwch mewn postyn llachar ar y  
gwaelod i oleuo'r ffordd o'ch blaen. A beth am hunau lun ar y copa!

Gellir cofrestri am £10 yr un (£5 i blant dan 16). Y gobaith yw casglu £50 oddi wrth bob teulu neu  
grŵp. Cafwyd amser da'r llynedd, felly gobeithio gallwch ddod. Rydym yn trefnu rhywbeth i'ch  
synnu a'ch diddori wedi cyrraedd y copa. Ewch i'r wefan i gofrestri cyn gynted â phosib oherwydd  
rhesymau diogelwch mae'r rhif yn gyfyngedig - <http://w3.cerebra.org.uk/whats-on/sleep-walk-2017/> neu alw 01267 242 586. Cecilia Bufton E: [ceciliab@cerebra.org.uk](mailto:ceciliab@cerebra.org.uk)  
<mailto:ceciliab@cerebra.org.uk> T: 01267 242286 M: 07580 976497

## **Newyddion Eglwys y Plwyf - Oddi wrth y Canon Aled Williams.**

‘Wy yma o hyd wrth y llyw! Gofynnodd yr Esgob i mi wasanaethu’r plwyf am dri mis arall, fydd yn mynd a ni hyd ddechrau Mai. ‘Roeddwn yn hapus i wneud hynny, felly gobeithio eich bod yn bles a’r trefniant. Braint yw gwneud hynny!

Ddechrau 2017 gwawriodd sefyllfa newydd yn Esgobaeth Tyddewi, pan gysegrwyd a gorseddwyd yr Esgob Joanna Penberthy. Bu tipyn o sylw yn y cyfryngau oherwydd mae hi yw’r wraig gynta’ i’r swydd yng Nghymru. Gwell gennyf fi i’w gweld fel y person gorau i wynebu holl her ac oblygiadau’r swydd yn yr unfed ganrif ar hugain. Yn wreiddiol o Gaerdydd cyrhaeddodd ein hesgobaeth yn 1993 i wasanaethu mewn amryw o blwyfi dros yr 17 mlynedd nesaf. Yna wedi bod bant am beth amser mae’n dychwelid fel ein Prif Fugail, felly dymunwn bob bendith iddi yn ei swydd heriol newydd. Gobeithiwn weld yr Esgob Joanne yma cyn hir, efallai wrth i Ficer newydd gamu i’r swydd leol yma.

Byddaf yn dal ati i ofalu amdanoch ac yn arbennig i’r rhai hynny sy’n brwydro dan amgylchiadau anodd. Gobeithio y cewch nerth yn wyneb anobaith!

Pob bendith Aled! Ffon 01559 395802, [pedrbrefi@openworld.com](mailto:pedrbrefi@openworld.com)

[<mailto:pedrbrefi@openworld.com>](mailto:pedrbrefi@openworld.com)

### **Gwasanaethau’r Pasg**

*Dydd Iau Cablyd* – 6.30yh – Cymun Bendigaid Llanpumsaint

*Dydd Gwener Y Groglith* - 2.00yp - Myfyrdod Y Groes Celynin

*Dydd Sul y Pasg* - 9.00yb - Cymun Bendigaid Llanllawddog

- 10.15yb – Cymun Bendigaid Llanpumsaint

- 11.15 -- Cymun Bendigaid Celynin

Gellir gweld rhestr o’r gwasanaethau ar y Bwletin y tu allan i ddrws y Festri, ac mae yna wybodaeth bellach am amrywiol weithgareddau ar y Wefan [www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk).

### **Noson Rasio ceffylau’r Neuadd Goffa**

Daeth llu i fwyhau’r noson yng nghwmni egniol, Jonathon Saer, ein sylwebydd cynhyrfus. Mor fyw fu ei berfformiad fel y gallech feddwl eich bod yn Ffoslas neu Gasgwent. Aeth bawb i’w boced i geisio blingo’r Bwcis, ond aeth neb gartre heb grys. Diolch i aelodau Pwyllgor y Neuadd am eu gwaith caled yn paratoi, ac i Matthew Jones am redeg y Bar ar y noson.

Diolchwn hefyd i noddwyr y noson sef y busnesau lleol canlynol;--

Oven Wizards – Davies & Jones - Cwmni Adeiladu Dorian Bowen – Tafarn y Railwe -

Contractwyr Coed a Rheilffyrdd Barrett - West Wales Lubricants - Steve a Roz - Dentry, Lock & Partners..

Dioch i noddwyr y perchnogion a’r Jocis.

Gwnaed dros £600 o elw ar y noson fydd yn mynd at gynnal a chadw ein Neuadd fendigedig.

Gellir cynnal pob math o weithgaredd yma, pun ai pen-blwydd neu barti arbennig, achlysur teuluol neu unrhyw Glwb. Os am drafod neu fwcio cysylltwch â’r Ysgrifennydd Llogi

Derek Lock 01267 253524



## **Clwb Gwili Chwedeg**

Ymaelododd nifer a daeth rhagor o'r newydd ar gychwyn ein blwyddyn o gyfarfodydd misol. Ddiwedd Chwefror dathlwyd GŴyl Ddewi gyda chawl, caws, Bara brith a chacennau. Diolch i Maureen Eldorado am wneud y cawl! Cafwyd prynhawn difyr wrth i Arwyn Thomas, yn bwrpasol a diddorol, drafod hanes Dewi Sant.

Dyma grynodeb o weithgareddau'r tri mis nesaf. -

24-4-17 Frank Barrett yn siarad am Atgofion Ifaciwi.

22-5-17 Betty Davies yn trafod hanes Frank Lloyd Wright.

Cynhelir ein cyfarfodydd yn Neuadd Bronwydd am ddau o'r gloch bob tro. Croeso i bawb - Y dal aelodaeth i'r rhai newydd yw £5.

Dyma rest o'r teithiau eleni –

Dydd Mercher 19eg o Ebrill - I'r Bathdy Brenhinol a Llancaeath Fawr. Bws y llawn

Dydd Iau 18fed o Fai - Trip tridiau i Ironbridge - peth lle ar ôl!

Dydd Iau 6ed o Orffennaf - Trip Caerdydd. Bydd rhai aelodau'n gweld Matine o "Funny Girl" yn y theatr. Lle ar y Bws i Gaerdydd ond tocynnau'r Sioe wedi mynd.

Dydd Mercher 16eg o Awst - Ymweld â Chaerfaddon.

Gwybodaeth bellach oddi wrth Val Giles yr Ysgrifenyddes 01267 281194.

## **Cymdeithas Rhandiroedd Llanpumsaint**

Ymaelododd nifer yn y Cyfarfod Blynyddol ar y 25ain o Chwefror, ond mae yna ddigon o le i ragor. Byddwn yn cwrdd i gymani am hanner awr wedi deg ar fore Sul y 9fed o Ebrill, felly os ydych am weld y lle dewch atom bryd hynny. Rydym ar hen iard yr Orsaf i fynnu'r hewl fach o dafarn y Railwe. Keith Tozer.

## **Scam Newydd**

Cafodd nifer ohonom alwadau yn y gorffennol yn honni i fod oddi wrth Microsoft gan adrodd fod nam ar y cyfrifiadur. Mae yna dric newydd ar droed yn awr! Daw galwad yn honedig o B.T yn dweud fod nam ar eich Hub gan ofyn i chi droi'r cyfrifiadur ymlaen er mwyn cywiro'r nam. Celwydd i gyd! Rhowch y ffon lawr ar y tacle! Galwch 1572 i'w rhoi yn y Blwch Sothach. Os eos gennych wir broblem y chi sy'n ffonio B.T.

## **Ceisiadau Cynllunio**

W/35292 Pantyffordd Llanpumsaint sa336bu -- Gwelliant i'r Caniataid presennol. Newid i'r Estyniad a'r Tai Mas.

W/35168 Skanda Vale sa336jt Rhyddhad o Amod 4 ar/33800 - Tirlunio a bioamrywiaeth.

## **Dewinwyr Gorllewin Cymru**

Dydd Sul Ebrill 23ain. Alanna Moore - Dewinwraig ers 30 mlynedd - awdur - diwylliant parhaol - yn cefnogi Tyrrau Egni i hybu tyfiant.

Mai 5ed – Dydd Rhyngwladol y Dewinwyr.

Mai 21ain - Gill Gregson - Adlunio'r Enaid drwy sianeli cywir i siartiau.

Mehefin 25ain - Dydd Iachau Ymarferol

Am wybodaeth bellach – Sandy 01267 253547

## **Cór Llanpumsaint a'r Cylch**

Ffe fydd y Cór yn perfformio "Olivet to Calvary" gan J.H.Maunders yn Eglwys y Plwyf, Llandysul ar nos Wener Ebrill 28 2017 am 7.30 yr hwyr. Yr artistiaid gwadd fydd Arwel Evans, Tenor a Gwyn Morris, Bariton. Yr Arweinydd fydd Gwyn Nicholas a'r Organydd fydd Lynne James. Pris mynediad fydd £10.00 gyda'r elw yn mynd i elusen ddewisiedig y Cór am 2017 sef M.S.

Taer erfyniwn am eich cefnogaeth i hybu ymchwil i mewn i'r afiechyd hyn.

Hefyd yn y dyfodol agos bydd y Cór yn cynnal eu Swper ac Adloniant Blyneddol yn Neuadd Goffa Llanpumsaint, y dyddiad a'r amser dechrau i'w benderfynnu. Cadwch lygaid am y posteri o amgylch yr ardal.

## **Clwb Bowlio Nebo a Llanpumsaint**

Daw tymor y Gynghrair yn brysur at i derfyn, gydag ond tair gem yn weddill. Llandyfaelog B i ffwrdd ag adre, ac adre i Lanboidy B.

O'r tair gem ddiwethaf, ennill 8-0 erbyn Alma, ennill i ffwrdd 5-3 erbyn Meinciau a 6-2 erbyn Llanboidy B. Hyd yn hyn chwaraewyd 19, 12 buddugoliaeth, 3 yn gyfartal a cholli 4.

Yn Ebrill daw'r gemau i ffwrdd ag adre erbyn Bronwydd am Dlws Coffa Roy Bowen. Yna daw cystadlaethau mewnol y Clwb.

Derick Lock – Ysgrifennydd – 253524

## **Noson Rasys Ceffylau yn Neuadd Bronwydd - 13eg Hydref**

7.00yh - Ras Gyntaf am 7.30. Croeso i bawb dros oed 16. Mwy o wybodaeth nes ymlaen.

## **Canolfan Ailgylchu'r Neuadd Goffa**

Mae gan Ymddiriedolwyr y Neuadd gytundeb a'r Cyngor Sir yn ymwneud ag ail-gylchu biniau papur, gwydr a chaniau ar ein safle. Fel Ysgrifennydd disgwylir i mi gyflwyno adroddiad bob pythefnos ar - Cyflwr y biniau - sbwriel ar y safle - unrhyw fandaliaeth - tipio anghyfreithlon.

Felly os welwch nad yw popeth yn iawn cysylltwch â mi yn union fel y gallaf adrodd yn ôl i'r Cyngor.

Buddiol i bawb yw hi fod y safle'n lan.

Derik Lock 253524

## **Y Dydd Hwyl Flynyddol -- Sadwrn Mai 6ed 2017**

Dyma'r amserlen am y dydd

1.30yp – 8 Ras ddefaid gyda'r betio'n £1 y tro

2.00 - 4.30yp - Rhostio'r Mochyn - Rôl £2.50 - Cwn Poeth £1

Tua 4 o'r gloch – Ras Hwyaidd Nebo.

Bydd y Neuadd ar agor gydol y prynhawn am de a choffi a'r bar ar agor.

Agorir y drysau am 6'45yh erbyn Cyngerdd Tina Turner gan Sarah Jones sydd i ddechrau am 8. Tocynnau – Oedolion £8 (Plant dan 18 - £2). Dim diod feddwol i'r plant.

Tocynnau wrth Derik Lock 253524 – gyda sicciau'n daladwy i'r Neuadd Goffa. Brysiwch oherwydd cyfyngir y nifer i 120.

Fel ag o'r blaen oherwydd pryderon diogelwch bydd yr heol rhwng Penbontbren a'r Ficerdy ar gau o hanner dydd hyd chwech y nos.

[www.easyfunding.org.uk/causes/LLanpumsaintPTA](http://www.easyfunding.org.uk/causes/LLanpumsaintPTA)

Os ydych yn siopa ar y we gallwch chi nawr helpu i godi arian tuag at yr ysgol drwy gofresri ar

[www.easyfunding.org.uk/causes/LLanpumsaintPTA](http://www.easyfunding.org.uk/causes/LLanpumsaintPTA) neu cysylltu a Emma Brown am y linc.

Os oes unrhyw un yn y gymuned leol sydd yn gallu noddi drwy eu gwaith neu unrhyw ffordd arall a fydddech cystal a chysylltu a Becky James ar 01267 253560



## **Clwb Cant Llanpumsaint**

Os yn ail- ymaelodi neu'n ymuno o'r newydd disgwylir y £12 erbyn y 15 fed o Ebrill. Tynnir enillwyr Mawrth/Ebrill yng nghyfarfod blynyddol y Pwyllgor Lles ac adloniant ar y 26ain o Ebrill. Dyma'r gwobrau am y flwyddyn ;--

Mawrth i Ionawr (heblaw am Ragfyr) - 1af - £20 - Ail - £10 -- 3dd (dwy wobwr) £5.

Gwobrau Nadolig/Rhagfyr - 15 gwobr; - 1af - £100 ; Ail - £50 ; 3dd (dwy wobwr) £25; 4dd (dwy wobwr) - £15; 5ed (Naw wobwr) £10.

Derick Lock Trysorydd 253524

## **Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint**

Cynhelir Ein Cyfarfod Blynyddol yn y Neuadd goffa am wyth o'r gloch nos Fercher y 26 awn o Ebrill. Dylai unrhyw gynigion, gydag enw ac eilydd fod yn llaw'r Ysgrifennydd Derik Lock , Maes-y-Felyn, sa336by erbyn dydd Gwener 18 fed o Ebrill.

Gosodir dwy fainc newydd lle bu cytiau'r beldroed cynt, daw pyst newydd i'r peldroedwyr, a byddwn yn atgyweirio'r siglen, i gyd erbyn dechrau Ebrill. Bwriedir archebu dwy fainc ychwanegol yn nes i lawr y cae pan fydd y safle'n barod. Rydym yn ystyried cael torrwr porfa newydd ac y fwy o faint i'r cae , gan neilltuo'r un presennol at y Lle Chwarae a'r cwrt tennis. Bydd arwyddion yn dod i rybuddio pobl am beryglon trafniadaeth ger yr allanfeydd. Mae yna eisoes strivedi llachar ger allanfa'r Lle Chwarae. Penderfynwyd gwahardd mewnfudwyr - y gwahaddod!

Yr Elusen am 2017 fydd Elusen Iechyd Meddwl Eiriol sydd ar y llawr cynta' 59 Stryd y Brenin, Caerfyrddin. Sa311ba. Cafwyd y cefndir yn ein rhifyn diwethaf. Mae Eiriol yn cynnig cefnogaeth i deuluoedd ar draws y Sir sydd yn wynebu problemau iechyd meddwl. Felly gwneir casgliad yn ystod ymdaith Sion Corn, Raffl a photel ar y Bar yn y Railwe.

Dyddiad i'w nodi! Dydd Sadwrn 3dd o Fehefin - Bore Cymoni'r cae! Mae angen clirio'r llwybr , golchi cyfarpar, felly dewch a'ch rhaw, menig, bwced a brwsh, erbyn deg o'r gloch.

## **Gofal Traed**

Dyma ddydiadau y clinig nesaf o 11.00y.b. hyd 4.00y.p, Dydd Mercher Ebrill 19, Mai 31, Gorffennaf 12

Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwinytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis)

## **Cyngor Cymuned Llanpumsaint**

Phillip Jones yw'r clerc a gellir cysylltu ag e' ar 01267 253512 neu [clerc@llanpumsaint.org.uk](mailto:clerc@llanpumsaint.org.uk) <mailto:clerc@llanpumsaint.org.uk>, [<http://llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/>](http://llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/)

**Llyfrgell Deithiol** - Bob 4 wythnos, ffl gael ffôn 01267 224830

**Gwasanaeth Swyddfa Bost** - gyferbyn â Thafarn y Rheilffordd ar ddydd Mawrth 2.00 -4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 y.h.

## *Teyrnged i Fam Plant y Chwildro*

Rhag ofon fod rhywun ma ddim yn gwbod, pentref bach yw Pontarsais, ar y briffordd o Gaerfyrddin i Lamed, a rhyw hanner ffordd rhwng Rhydargaeau ag Alltwalis. Saif y Stag & Ffesant ar frycin amlwg yno.

Yn wreiddiol bu'n rhan o Ystâd Glangwili Llanllawddog, ac fel mae'r enw'n awgrymu, un amser ar eu tir hela. Ddechre'r 20fed ganrif, y tenant oedd Sam Isaac. A hwnnw yn ei Freeches, fyddai'n gyrru'r Gwŷr Mowr Glangwili obiti yn eu Coach and Four. Am y rhan fwyaf o'i hanes tafarn bach gwledig, eitha' tawel a weddol ddi-nod oedd yma.

Yna'n sydyn yn 1961 ffrwydrodd pethau pan gyrhaeddodd perchenog newydd, Mrs Madge Jenkins o ardal Tresaith, i redeg y busnes. Mewn byr amser newidiodd cymeriad y lle'n llwyr. Aeth yn hynod o brysur, a ddim rhyfedd gyda dwy groten bert y tu ol i'r cownter. Cyn pen dim bu galw cyson ar Olga ag Enfys, gyda Lyndon tu ol rwle, wrth i gynulleidfa newydd o bobl ifenc lenwi ac yna gorlenwi'r lle.

Bron cyn i neb sylweddoli ro'n ynghanol chwyldro'r chwedegau, pan welwyd cenhedlaeth o bobl ifanc yn torri'n rhydd o gonfensiwn yr hen ffyrdd o feddwl a byw. O edrych yn ôl yn hanesyddol gwelwn fod yna nifer o ffactorau wedi dod ynghyd i greu'r ffenomena yma, adlewyrchwyd mor ddramatig yn y Stag.

Erbyn y chwededau, a thlodi'r Rhyfel y tu ôl, daeth cymdeithas cefn gwlad yn fwy cyfforddus, ac wrth i ffarmo dalu'n well, ymddangosodd ceir ar y clos. Erbyn i'r meibion ddysgu dreifio, ac arian yn eu pocedi benthycwyd car y teulu ar nos Sadwrn.

Am fynd i Eisteddfod neu Gyngerdd fu'r rheswm swyddogol, aeth hwnnw wedyn yn esgus handi iawn am ddychwelid yn oriau man y bore. Bant a nhw -- llenwi'r seddau a ffrindiau - draw am y Stag - y stop gynta' -- wedyn dawns -- wedyn Eisteddfod a wejen (falle!). Yn lleol Ceir John Frongoch, Geler Nantglas a John Llwyncroes ag eraill fydde'n carto ni obiti - a'r un fu'r patrwm o bentrefi eraill - cyn hir ymddangosai fel tase hanner Sir Gar yn cyrraedd maes parcio'r Stag ar nos Sadwrn. A lawr o Geredigion dyma nhw - Lyn Ebenezer, Peter Goginan, ac yn y blaen!

Pam Y Stag?! Mewn oes draddodiadol bu nifer o dafarnau braidd yn amheus a gwyliadwrus o'r bobol ifenc 'ma.

*-- Grondo'r hen Roc & Rol na! - Dilyn Bill Hayley a danso'n wyllt! A'r Beetles na a'u gwallte od a'r trwseri main? A nawr ma nhw'n dechre gweiddi obiti'r Iaith a phethe! Credwch Fi! Dy nhw'm byd ond trwbwll!*

A dilyn confensiwn wnâi'r rhan fwyaf o wragedd mewn oed a phlant yn eu harddegau ganddynt -- ambell gyfarfod W I - siarad am wneud jam neu glonc fach wrth siopa!. Ond 'roedd Mrs Jenkins yn wahanol, -- dan y meddwl agored a'r chwerthiniad iach'roedd yna wraig busnes craff. Gwelodd fod y genhedlaeth newydd yma yn chwilio am groeso, am gartref, a chanolfan i gymdeithasu. O'dd dim niwed ynddynt!

Dihunodd ieuencid y chwedegau'n wleidyddol - daeth hawliau dynol i'r amlwg - hawlie gwleidyddol a hawlie iaith! Datblygodd y Stag i fod yn un cyrchfan i ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith a'r frwydr am Arwyddion Ffyrdd.

Gallech weld yn sydyn tri pheint hanner llawn a neb o'u hamgylch, ac yna'r perchnogion coll yn dychwelid mewn rhyw hanner awr. Fore trannoeth fydde arwyddion *Carmarthen* neu *Lampeter* wedi newid eu lliw.

Daeth trychineb Tryweryn a Byddyn Rhyddid Cymru, F.W.A. i amlygrwydd, a'r Stag yn lle cyn cyfeillgar rhwng De a Gogledd, wrth iddynt ymgyrchu. Daeth Caio Ifans, Dennis Coslett (a'r ci) Vernon a Gareth ag eraill. Er yr holl stranciau dylid nodi fod yna gryn gefnogaeth i safiad yr F.W.A yn erbyn taeogrwydd plygu glun y Gymru draddodiadol, yn enwedig adeg yr Arwisgo.

Bu croeso a chwerthiniad iach Madge yn ddiwahân i bawb. A ‘doedd byth trwbwl yn y Stag! Ond daeth yr Heddlu Cudd i fusnesa hefyd. A phan erlidiwyd bechgyn yr F.W.A yn Llys Abertawe ‘roedd Madge yno yn y galeri yn gefn i’w chwsmeriaid.

Daeth bachgen ifanc- yn gamster ar y gitâr - i ganu caneuon heriol newydd yn y Lounge. A dyma gychwyn cyfeillgarwch teuluol am oes, gyda’n eicon, Meic Stephens – ag yntai’n dal i holi amdani hyd ei dyddiau olaf.

Daeth Heather Jones, Y Tebot Piws1 Daeth pawb! Daeth Tydfor i ganu, ond yn hwyr ar ôl godro wrth gwrs, ac mi alwai’r Prifardd Dic Jones yn gyson. Mae peth dryswch, eiddo pa un yw’r englyn - efallai i’r ddau fardd helpi eu gilydd!

Na phasier y Stag & Ffesant – tro i fewn  
Rhwng ei furiau a’i ramant.  
Lle’r sport a’r Bois Important,  
A’r cwrw cyn bwrw bant.

Erbyn hyn gorlifo oedd y dyrfa ar nosweithiau prysur, a bron dim lle i Dai Twm, Lewis a Philbo gadw trefn wrth y Bwrdd Darts, a phiano Percy’n suddo dan y dorf. Felly adeiladwyd Estyniad, a daeth Hywel Gwynfryn lawr i’w agor.

A thrwy hyn oll bu’r croeso, yr hwyl a sbri, a haelioni Madge yn gyson. Deuai gwahoddiad i’r Gegin gefen wedi Stop Tap, i fwynhau brechdanau a diod fach arall, i gyd yn rhad. A chyfle yno i chwerthin unwaith eto ar adroddiadau digri D J Lloyd Danfforddgar - erbyn diwedd o’n ni gyd yn gwobod Colli’r Cwrcyn-“ *Fe ddaw e ‘nol am yr un rheswm ag ath e’* Gwobr D.J. bob tro fydde cinio Dydd Sul y Stag! Daeth gwahoddiad yn hwyr i fynd am barti i Bodalwyn. Ble o’dd e? Bob cam i Aberystwyth, braidd yn bell ‘r amser na o’r nos. Cyrhaedded rai o’r bois adre just cyn amser godro trannoeth.

Ac i Aberystwyth aeth Madge Jenkins yn y diwedd i ymgartrefi yno yn 1972. Felly daeth y cyfnod euraidd i ben. Dychwelodd y Stag i fod yn dafarn arferol.

Ac mi newidiodd y genhedlaeth ifanc yna hefyd - wrth i unigolion ddod i fedru fforddio car bach eu hunain, aethant yn fwy annibynnol, ac mi ddiflannodd y gymdeithas fach glos llond car wedi eu gwasgu i’r set gwt yna. Aeth pob un ffordd ei hunan.

Daeth mwy o hawliau dynol! Daeth mwy o barch i’r iaith! A daeth arwyddion ffyrdd dwyieithog! - *Caerfyrddin – Llamedr-Pont- Steffan* Ac yn y diwedd daeth Senedd.

Cofrwn - Y wraig haelionus, a’r meddwl agored a’r chwerthiniad iach !

Bu Madge Stag yn fam i blant y Chwildro.

Arwyn 2017

## **Newyddion o Skanda Vale**

Cynhelir taith nodedig ar y 29ain o Fai 2017 ar ran o Lwybr Arfordir Si Benfro ger Aberteifi.

Mwy o wybodaeth ar y cyswllt yma -

<https://www.skandavalehosptice.org/fundraise/sponsored-walk-pembrokeshire-coastal-footpath/>

Bydd yna dair taith, un yn 8 milltir, un yn 6, a’r llall yn bedair, gyda chinio bwffe i bawb i ddilyn.

Cysylltwch â [sister.ally@skandavale.org](mailto:sister.ally@skandavale.org) <<mailto:sister.ally@skandavale.org>> neu ffonio 01559 371

222, neu *Aquila Muir, Cyd-gysylltydd Codi Arian.*

# Village Voice

# April 2017

Copy Date for next Edition 20th May 2017

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange  
[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) email [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk). Please send items to  
[info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk) or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

## What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Tuesday 'Fitness Fun' at the Memorial Hall at 6.30 pm. £4 per 1 hour session.

Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Thursday Roast Dinner Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall

April 4 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

April 9 Sunday 10.30 Tidy up in the Allotment Site

April 12 Wednesday Mobile Police station in village

April 12 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book

April 18 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

April 19 Wednesday 60+ Club Day Trip to Royal Mint

April 19 Wednesday 11.00 – 4.00 Foot Clinic Memorial Hall

April 23 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

April 24 Monday 2.00 60+ Club Bronwydd Hall

April 26 Wednesday 8.00 AGM Welfare and Recreation Association Memorial Hall

April 28 Friday 7.30 Llanpumsaint & District Choir Llandysul Parish Church

April 30 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn

May 4 Thursday Election Day

May 5 International Dowsing Day

May 6 Saturday 1.30 Fun Day Afternoon and evening entertainment

May 6 Saturday 2.00 Walk from Cwmttydu

May 6 Saturday 7.00 Cerebra Sleep Walk Pen y Fan

May 10 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book

May 16 Tuesday 8.00 Community Council AGM and Meeting Memorial Hall

May 17 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

May 18 Wednesday 60+ Club Trip to Ironbridge

May 21 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

May 22 Monday 2.00 60+ Club Bronwydd Hall

May 28 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn

May 29 Monday Skanda Vale Sponsored walk

May 31 Wednesday 11.00 – 4.00 Foot Clinic Memorial Hall

June 3 Saturday 10.00 Playing Field Tidy Up

June 3 Saturday 2.00 Walk up to Cwm Creigiau Fach

June 6 Tuesday 8.00 Community Council Memorial Hall

June 11 Saturday 11.00 Open Farm Sunday Esgair

June 14 Wednesday Mobile Police station in village

June 14 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book

June 20 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

June 25 Sunday 1.45 West Wales Dowers Bronwydd Hall

June 25 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn

July 12 Wednesday 11.00 – 4.00 Foot Clinic Memorial Hall

October 13 Friday Race Night Bronwydd Hall

*Llanpumsaint and Ffynnonhenry Memorial Hall - To book phone Derick Lock on 253524*

### **Superfast Broadband – or should it be Superslow?**

In February Village Voice I reported that the latest news from BT was that Superfast Broadband would be available in Llanpumsaint at the end of February – they are now saying 4 months!

I have been dealing with the high level complaints team in BT, but even they seem to be unable to get any information from Openreach about progress installing fibre to the village.

Perhaps you will get a better response – I have been dealing with Noel Kirkpatrick, 0131448 4880, and he was supposed to get back to me by the end of March with an update! Carolyn Smethurst

### **Alternative uses for Grit Bins**

If somebody offered you one, what would you use it for? Obviously they have been designed to contain salt laden grit and the bins are situated at strategic places on country lanes where the gritting lorry doesn't get to so that hills and sharp bends can be kept relatively ice free and safer for traffic. Llanpumsaint Community Council had requested of the County Highways Department that a Grit Bin be placed on the bend opposite the entrance to Pantydriw as there is often seepage of water out of the hedge and onto the road and when the temperature drops below freezing, the sharp turn in the road can be extremely dangerous early in the morning because the bend is sheltered from the rising sun and it is an icy road surface that doesn't thaw until mid morning, some considerable time after the school bus has inched its way down the hill. Last Autumn, the Highways Dept granted us our wish and placed a Bin filled with grit in a location convenient for the grit to be applied to the road when needed. For some unknown reason, approximately a month ago, the Grit Bin disappeared and its contents tipped onto the road; the cheerful, yellow box had barely settled in before it was moved (probably against its will!) and the Councillors would like to know to where!

According to Tony Williams of Highways, theft of Grit Bins is very rare; usually it is the contents that disappear and not the Bin but someone passing through the village took a fancy to the large moulded plastic box and removed it and the community would like to have it returned please! If somebody knows anything about the magician that caused the disappearance of the Grit Bin, perhaps the same conjurer could be encouraged to make it reappear just as mysteriously as it vanished. Because removal of the Box is considered theft, the crime has been reported to the Police but if the Box were to reappear, there would not be any need for the Rural Police Force to spend any more time investigating its disappearance; the case would be considered 'Closed'!

### **Fundraising for the PTA, Llanpumsaint School**

If you are an Internet shopper, you could help raise funds for the PTA. All you have to do is register at, [www.easyfundraising.org.uk/causes/LlanpumsaintPTA](http://www.easyfundraising.org.uk/causes/LlanpumsaintPTA) or contact Emma Brown for the link.

If anyone in the local community is able to claim £4£ match funding through work or other means and are willing to allow the PTA to claim this match funding, please let Becky James know on 01267 253560.

## **Llanpumsaint and District Choir**

